

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 17 Ionawr 2018

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 23 IONAWR 2018** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd fel un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYG

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion bryg yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2017 (copi'n amgaeedig).

5 CYNNIG I SEFYDLU GRŴP CYNLLUNIO STRATEGOL (Tudalennau 15 - 20)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Cynllunio a Theithio Cynaliadwy (copi'n amgaeedig) yn amlinellu'r cynigion ar gyfer sefydlu Grŵp Cynllunio Strategol i arwain ar ddatblygiad disodliad Cynllun Datblygu Lleol.

6 DARPARIAETH BAND B - RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF (Tudalennau 21 - 32)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc (copi'n amgaeedig) ar gynnydd o ran Band B a'r Rhaglen Addysg Ysgolion yr 21ain Ganrif a goblygiadau'r ddarpariaeth.

7 GOSOD RHENT TAI A CHYLLIDBAU REFENIW TAI A CHYFALAF 2018/19 (Tudalennau 33 - 46)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i godi rhent blynyddol tai cyngor Sir Ddinbych ac i gymeradwyo'r Cyfrif Refeniw Tai a Chyllidebau Cyfalaf ar gyfer 2018/19 a'r Cynllun Busnes Stoc Dai.

8 ARGYMHELLION Y GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL (Tudalennau 47 - 56)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) yn gofyn am gefnogaeth y Cabinet ar gyfer prosiectau a nodwyd ar gyfer eu cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2018/19.

9 CYLLIDEB 2018/19 – CYNIGION TERFYNOL (Tudalennau 57 - 98)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) yn nodi goblygiadau Setliad Drafft Llywodraeth Leol 2018/19 a chynigion i gwblhau'r gyllideb ar gyfer 2018/19.

10 ADRODDIAD CYLLID (Tudalennau 99 - 110)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidebol a gytunwyd arni.

11 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET (Tudalennau 111 - 114)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd wedi'i hamgáu, a nodi'r cynnwys.

RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem fusnes ganlynol yn cael ei thrafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriadig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 & 16, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

12 CYN YSBYTY GOGLEDD CYMRU, DINBYCH – GWEITHDREFN GORCHYMYN PRYNU GORFODOL (Tudalennau 115 - 130)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol (copi'n amgaeedig) yn diweddarau'r Cabinet ar weithdrefn Gorchymyn Prynu Gorfodol.

MEMBERSHIP

Y Cynghorwyr

Hugh Evans
Bobby Feeley
Huw Hilditch-Roberts
Richard Mainon

Tony Thomas
Julian Thompson-Hill
Brian Jones
Mark Young

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 12 Rhagfyr 2017 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc; Brian Jones, Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Datblygu Isadeiledd Cymunedol; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; a Mark Young, Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol

Arsylwyr: Y Cyngorwyr Meirick Davies, Arwel Roberts, Glenn Swingler, Rhys Thomas ac Emrys Wynne

HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB); Penaethiaid Gwasanaethau: Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG), Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol (TW) a'r Swyddog Cyllid/Adran151 (RW); Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro (LJ); Swyddog Comisiynu a Thendro (LD); Rheolwr y Tîm Atal Digartrefedd (CO); Partner Busnes Caffael (MW); Rheolwr Adain Cludiant i Deithwyr (PD) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

PWYNTIAU SYLW

Bu i'r Arweinydd –

- (i) dalu teyrnged i waith staff y Cyngor o sawl adran dros y diwrnodau diwethaf wrth ymateb i dywydd eithafol yn y sir mewn amgylchiadau heriol ac anodd, ac fe gyfleodd ei werthfawrogiad
- (ii) gofyn i rai nad oeddent yn aelodau o'r Cabinet ymatal rhag gwneud sylwadau a datganiadau cyffredinol ar eitemau penodol a chanolbwyntio ar ofyn cwestiynau perthnasol ar yr adroddiad penodol a'r argymhellion a oedd dan ystyriaeth.

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cyngorwyr Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth Nicola Stubbins, Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

3 MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2017.

PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2017 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.

5 STRATEGAETH DDIGARTREFEDD SIR DDINBYCH 2017-21

Yn absenoldeb y Cynghorydd Bobby Feeley, cyflwynodd y Cynghorydd Tony Thomas yr adroddiad i geisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Strategaeth Ddigartrefedd 2017-21 cyn ei chyflwyno i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol. Roedd y Strategaeth yn amlinellu cynlluniau a chamau gweithredu'r Tîm Atal Digartrefedd (a'i bartneriaid) i fynd i'r afael â digartrefedd a'i achosion.

Roedd Deddf Tai (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal adolygiad o ddigartrefedd yn eu hardal a datblygu Strategaeth Ddigartrefedd yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adolygiad. Roedd y Strategaeth yn manylu ar chwe blaenoriaeth strategol ar gyfer y 4 blynedd nesaf i fynd i'r afael â digartrefedd yn Sir Ddinbych ac, yn y pen draw, i gael gwared ag o'n gyfan gwbl, gydag ymrwymiad cadarn i ymyrryd yn gynnar ac atal. Roedd y Strategaeth wedi'i datblygu ar ôl ymgynghori'n helaeth ac roedd wedi'i hystyried gan Bwyllgor Archwilio Partneriaethau ym mis Tachwedd pan gafodd ei hargymell i'r Cabinet i'w mabwysiadu.

Trafododd y Cabinet yr adroddiad gyda swyddogion ac roeddent yn awyddus i ddeall effaith diwygio'r gyfundrefn les ar ddigartrefedd a sut roedd Sir Ddinbych yn cymharu â gweddill y wlad yn sgil y pwysau cynyddol a'r galw am wasanaethau, ynghyd â mesurau i fynd i'r afael â phroblemau penodol, gan gynnwys yr effaith ar bobl ifanc a theuluoedd.

Wrth ymateb i gwestiynau'r aelodau, bu i'r swyddogion –

- gadarnhau bod effaith fawr wedi bod mewn ardaloedd lle roedd credyd cynhwysol wedi'i gyflwyno ac roedd y Tîm Atal Digartrefedd, ynghyd â phartneriaid, yn gweithio i ddod o hyd i'r grwpiau hynny a effeithiwyd er mwyn lliniaru effaith y newidiadau hyn gymaint â phosib' a darparu cyngor a chymorth yn gynnar
- o ran galw cyffredinol, roedd yn anodd cymharu ffigyrau yn sgil y newidiadau deddfwriaethol diweddar ond roedd llawer o alw'n dal i fod, a oedd yn anodd ei ateb mewn rhai achosion
- ymhelaethu ar ddefnyddio llai o lety gwely a brecwast ar gyfer pobl ifanc a oedd yn dilyn datblygu Llwybr Cadarnhaol Pobl Ifanc a defnyddio llety dros dro mwy addas a gwahanol opsiynau
- pwysleisio pwysigrwydd y sector rhentu preifat i ddiwallu anghenion o ran tai a datblygu cynnig i landlordiaid, gan gynnwys taliadau anogaeth i landlordiaid, i gynyddu nifer y tai a oedd ar gael i unigolion a theuluoedd a oedd yn ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartref

- trafod yr heriau wrth gyfathrebu gyda'r 'rhaid digartref cudd' a'r rhaid nad oeddent yn cydnabod eu statws neu nad oeddent yn dymuno derbyn cymorth y gwasanaeth – roedd llawer yn cael ei wneud drwy sawl rhaglen allgymorth ac ymateb gyda gwasanaethau hyblyg a oedd wedi'u harwain gan anghenion unigolion; roedd offerynnau hunan-help ar y we yn ddull arall ar gyfer y rhaid nad oeddent yn dymuno cael cymorth uniongyrchol
- roedd y costau uwch ar ôl cyflwyno Deddf Tai 2014 wedi'u cydnabod gan Lywodraeth Cymru yn y ddarpariaeth o gyllid ar gyfer y flwyddyn nesaf
- prif sail y Strategaeth oedd yr adolygiad o ddigartrefedd a gynhaliwyd yn 2016, a oedd yn gynhwysfawr iawn ac a oedd yn arwain yn allweddol ar yr hyn yr oedd ei angen yn lleol, gan fodloni gofynion cyfreithiol y Ddeddf ar yr un pryd
- ymhelaethu ar y cysylltiadau cryf a oedd rhwng adrannau, yn enwedig Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, a oedd â rheolaeth reoleiddio dros safonau tai a landlordiaid ac a oedd wedi ysgogi gwell ansawdd a disgwyliadau
- cydnabod bod ymyrraeth gynnar yn allweddol ac adrodd ar gamau i ymgysylltu ag unigolion a theuluoedd yn gynnar i atal digartrefedd a fyddai, yn y dyfodol, yn cynnwys presenoldeb ffisegol ar y rhiniog
- roedd cyfeiriad mwy eglur tuag at feini prawf ar gysylltiadau lleol wedi'u cynnwys yn y Strategaeth ar gais Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gellid darparu copiâu o Ganllawiau Ailgysylltu Cefnogi Pobl i aelodau pe gofynnid am rai
- cadarnhau bod diffyg taliadau uniongyrchol i landlordiaid wedi arwain at beth amharodrydd i ddarparu llety, felly roedd angen ystyried taliadau anogaeth i landlordiaid yn rhan o ddatblygiadau'r dyfodol
- yn rhan o gynlluniau i atal digartrefedd ymysg pobl ifanc, byddai gwaith addysgu mewn ysgolion a darpariaethau eraill i bobl ifanc yn cael eu comisiynu i godi ymwybyddiaeth o'r opsiynau tai sydd ar gael a gwirionedd a risgiau digartrefedd ac fe ddarparodd y swyddogion eglurhad o'r llety seibiant mewn argyfyngau a oedd ar gael hefyd
- o ran y dyfodol, cadarnhaodd y swyddogion monitro y byddai adroddiad cynnydd ar weithredu'r strategaeth a chyflawni Cynllun Gweithredu Atal yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Archwilio Partneriaethau ym mis Mai 2018.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol bod yr adroddiad wedi dyfynnu deddfwriaeth a oedd wedi'i dirymu o dan yr adran 'pŵer i wneud y penderfyniad' a'r pŵer cywir oedd Adran 50 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

PENDERFYNWYD y dylai'r Cabinet gymeradwyo'r Strategaeth Ddigartrefedd cyn ei chyflwyno i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ym mis Ionawr 2018, a'i gweithredu hyd at 2021.

6 CYNLLUN CEFNOGI POBL/ATAL DIGARTREFEDD SIR DDINBYCH 2018/19

Yn absenoldeb y Cynghorydd Bobby Feeley, cyflwynodd y Cynghorydd Tony Thomas yr adroddiad i geisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Cynllun Cefnogi Pobl/Atal Digartrefedd Sir Ddinbych 2018/19 cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.

Roedd y Cynllun yn amlinellu cynlluniau a gweithredoedd y Tîm Atal Digartrefedd (a'i bartneriaid) wrth fynd i'r afael â digartrefedd a'i achosion, gyda phwyslais arbennig ar ddatblygiad gwasanaeth a gomisiynwyd dros y flwyddyn nesaf. Roedd

y Cynllun hefyd yn rhan allweddol o gyflawni rhannau o'r Strategaeth Ddigartrefedd (a drafodwyd o dan yr eitem flaenorol). Roedd pum blaenoriaeth strategol wedi'u nodi ar gyfer y Cynllun, a fyddai hefyd yn cynnwys cynllun gwario llawn ar gyfer y Grant Cefnogi Pobl ar ôl i Lywodraeth Cymru gadarnhau'r gyllideb. Roedd y Cynllun wedi'i ddatblygu ar ôl ymgynghori'n helaeth ac roedd wedi'i hystyried gan Bwyllgor Archwilio Partneriaethau pan gafodd ei argymhell i'r Cabinet i'w fabwysiadu.

Wrth ymateb i gwestiynau ynglŷn â lefelau cyllid, dywedodd swyddogion bod elfen Cefnogi Pobl y cyllid wedi'i neilltuo at y dibenion hynny gan Lywodraeth Cymru am y ddwy flynedd nesaf. Roedd cynllun gwario'n cael ei ddatblygu bob blwyddyn ynghyd â chynllun arian at raid ar sail toriadau disgwylidig yn sgil cael gwybod yn hwyr am y lefel union o gyllid i awdurdodau lleol unigol gan Lywodraeth Cymru. Eglurodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol mai'r darpariaethau deddfwriaethol cywir o dan yr adran 'pŵer i wneud y penderfyniad' yn yr adroddiad oedd Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

PENDERFYNWYD y dylai'r Cabinet gymeradwyo Cynllun Cefnogi Pobl/Atal Digartrefedd 2018/19, cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ym mis Ionawr 2018 a'i weithredu yn 2018/19.

7 CYTUNDEB Y GRONFA GOFAL INTEGREDIG 2017-2020

Yn absenoldeb y Cynghorydd Bobby Feeley, cyflwynodd y Cynghorydd Tony Thomas yr adroddiad i geisio cymeradwyaeth y Cabinet i'r Cyngor fod yn rhan o gytundeb cyfreithiol rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r chwe awdurdod lleol ar draws Gogledd Cymru mewn perthynas â'r Gronfa Gofal Integredig er mwyn gwneud trefniadau cyllid a llywodraethu rhanbarthol yn ffurfiol.

Roedd y Gronfa Gofal Integredig yn rhan o raglen ehangach o gydweithio ar ofal cymdeithasol ac iechyd a ddaeth yn sgil Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac roedd yn darparu ffrwd gyllid wedi'i rheoleiddio, drwy gyllidebau cyfun, i leihau'r pwysau ar yr ysbyty ac yn y gymuned, gan fod ar gyfer derbyniadau i'r ysbyty a rhyddhau o'r ysbyty yn rhanbarthol yn bennaf. Roedd trefniadau eisoes ar waith a byddai'r cytundeb cyfreithiol yn ffurfioli ac yn rheoleiddio'r gweithgareddau penodol hynny a'r ffrwd gyllid.

Roedd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yn cefnogi'r argymhellion ac yn cefnogi trosglwyddo i drefniadau mwy ffurfiol y gellid eu defnyddio fel achos prawf er mwyn rheoli tensiynau yn gynnar cyn bwrw ymlaen â'r rhaglen gydweithio ehangach rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â rôl y tîm ymateb cyflym, dywedodd y swyddogion bod cymorth yn y cartref bellach yn cael ei reoli o fewn prosiectau eraill, gyda nifer o wasanaethau'n gweithio ochr yn ochr â gwasanaethau gofal yn y cartref, a oedd hefyd yn cynnwys ail-alluogi ac ymyrraeth glinigol.

Roedd y Cabinet yn cefnogi ffurfioli trefniadau a'r gwaith a wnaed i ddarparu gwasanaethau'n rhanbarthol ac felly –

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn –

- (a) *nodi cynnwys yr adroddiad;*
- (b) *cymeradwyo bod y Cyngor yn ymrwymo i'r cytundeb cyfreithiol rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru, i reoleiddio'r drefn lywodraethol a'r prosesau ar gyfer y gofynion gwario ac adrodd mewn perthynas â TGCh, ac yn*
- (c) *cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 1) fel rhan o'u hystyriaethau.*

8 GWASANAETH A REOLIR AR GYFER DARPARU GWEITHWYR ASIANTAETH

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad i geisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddechrau caffael cydweithredol gyda Chyngor Sir y Fflint a llunio contract i benodi asiantaeth i gyflenwi staff dros dro i'r Cyngor eu defnyddio.

Daeth cytundeb cyfredol y Cyngor i gyflenwi staff asiantaeth i ben fis Chwefror 2018. Gan fod angen parhaus am staff asiantaeth ac o ystyried y gofynion deddfwriaethol, cynigiwyd y dylid cynnal proses dendro gystadleuol gan ddefnyddio'r fframwaith MSTAR2 (Gwasanaethau a Reolir ar gyfer Staff Asiantaeth Dros Dro). Byddai'r contract yn para tair blynedd, gyda dewis i roi estyniad o flwyddyn arall.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, ceisiodd y Cabinet eglurder ynglŷn ag elfen gwerth am arian y contract arfaethedig, manylion am y contract, ac a oedd dulliau darpariaeth eraill wedi'u hystyried. Nododd yr aelodau bod arbedion o dros £200,000 y flwyddyn wedi'u gwneud gan ddefnyddio'r fframwaith presennol ac er y cydnabyddid y byddai'r contract newydd arfaethedig hefyd yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y Cyngor yn ariannol, roedd pryder ynglŷn â'r diffyg manylder a ddarparwyd yn yr adroddiad er mwyn rhoi'r sicrwydd ar werth am arian, yn enwedig o gofio y byddai gwariant arfaethedig dros £4m dros bedair blynedd o dan y contract newydd, a chredai'r Cabinet y byddai'r mater yn elwa o'i archwilio ymhellach. Trafodwyd yr amserlenni ar gyfer y broses gaffael a bod y cytundeb cyfredol yn dod i ben ac, o ystyried bod yr amser yn brin, cytunwyd y dylid dechrau'r broses gaffael ond y dylid gofyn i'r pwyllgor archwilio priodol ystyried caffael cydweithredol ac opsiynau eraill ar sail y gwerth gorau cyn gynted â phosib, gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiad yn ôl i'r Cabinet i ystyried a ddylid parhau â'r broses neu dynnu yn ôl i ddewis opsiwn a fyddai o fwy o fantais.

PENDERFYNWYD *bod y Cabinet yn cymeradwyo –*

- (a) *dechrau'r broses gaffael gan ddefnyddio Fframwaith ESPO MSTAR2 Rhif 653F;*
- (b) *bod Cyngor Sir Ddinbych yn cydweithio gyda Chyngor Sir y Fflint i arwain a rheoli'r broses gaffael;*

- (c) *bod y pwyllgor archwilio priodol yn derbyn adroddiad gan y swyddogion perthnasol ym mis Ionawr 2018 ar y broses gaffael a'r dewisiadau eraill sydd ar gael i'r Cyngor yn seiliedig ar y gwerth gorau, a*
- (d) *bod y Cabinet yn derbyn adroddiad i ddyfarnu'r contract i'r cynigiwr sy'n cynnig y budd economaidd mwyaf ym mis Chwefror 2018.*

9 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllid y cytunwyd arni. Darparodd y crynodeb canlynol o sefyllfa ariannol y Cyngor –

- rhagwelwyd y byddai cyllidebau gwasanaethau a rhai corfforaethol yn bodloni'r costau drwy ddefnyddio arian corfforaethol at raid
- roedd gwerth £0.902 miliwn o arbedion effeithlonrwydd mewn gwasanaethau eisoes wedi'u cytuno yn rhan o'r gyllideb, gan ddisgwyl y byddent i gyd yn cael eu cyflawni – byddai unrhyw eithriad yn cael ei adrodd wrth y Cabinet
- amlygwyd y risgiau ar hyn o bryd a'r gwahaniaethau mewn perthynas â meysydd gwasanaeth unigol, a
- darparwyd diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys elfen y Cynllun Corfforaethol)

Gofynnwyd i aelodau'r Cabinet gymeradwyo cyflwyno achos busnes llawn am adeilad ysgol a chyfleusterau newydd ar gyfer Ysgol Gatholig 3-16 oed i Lywodraeth Cymru.

Wrth ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut y byddai'r tywydd garw'n effeithio ar gyllid, cyfeiriodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill at y gronfa wrth gefn er mwyn cynnal a chadw yn y gaeaf a sefydlwyd i gynorthwyo â galw mawr pe bai tywydd garw. Nodwyd nad oedd cludiant i'r ysgol wedi bod ar waith mewn sawl ardal, a fyddai'n arbed arian.

PENDERFYNWYD *bod y Cabinet yn –*

- (a) *nodir cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2017/18 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth gyllid y cytunwyd arni;*
- (b) *cefnogi cyflwyno achos busnes llawn ar gyfer ysgol Gatholig newydd a chyfleusterau ar gyfer disgyblion 3-16 oed i Lywodraeth Cymru (gweler Atodiad 4).*

10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried.

Byddai adroddiad ar y gwasanaeth a reolir i ddarparu gweithwyr asiantaeth yn cael ei drefnu at fis Chwefror 2018.

PENDERFYNWYD *nodir Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol, dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.

11 CONTRACT GWASANAETHAU BYSIAU LLEOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Brian Jones yr adroddiad cyfrinachol yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyrannu contractau ar gyfer gwasanaethau bysiau lleol yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Gontractau i'r cynigwyr a oedd yn cynnig y fantais ariannol fwyaf.

Roedd swyddogion wedi tendro ystod o opsiynau ac roedd cyflenwyr yn gallu cynnig am gontractau unigol ar gyfer dau neu fwy o gontractau ynghyd. Roedd nifer o ardaloedd heb wasanaethau ond roedd angen cymeradwyaeth gan y Cabinet er mwyn i'r swyddogion allu dyfarnu contractau'n ffurfiol yn unol â'r amserlenni perthnasol. Os nad oedd darparwyr yn gallu derbyn yr hyn a gynigiwyd iddynt ar y cam dyfarnu ffurfiol, byddai newidiadau dilynol yn cael eu rheoli gan ddefnyddio'r arian a oedd ar gael yn y gyllideb.

Yn ystod trafodaeth faith, bu'r swyddogion yn ymateb i gwestiynau ar ystod o faterion gan gynnwys y broses werthuso a sicrhau'r gwerth gorau am arian, profi bod ymchwil digonol wedi'i wneud, tocynnau a phrisiau, a gweithrediad penodol gwasanaethau penodol mewn gwahanol ardaloedd yn y sir ynghyd ag ymarferoldeb llwybrau a gwasanaethau penodol. Trafodwyd rhywfaint ynglŷn â'r potensial am fysiau trydan, a oedd yn dal i gael ei ystyried, a chan fod amser yn brin i wneud cais am gyllid mewn perthynas â hynny, cytunwyd y dylai'r Grŵp Buddsoddi Strategol ystyried y sefyllfa ddiweddaraf ymhellach y prynhawn hwnnw. O ran y cyllid a oedd ar gael, dywedodd y swyddogion bod y cynigion yn seiliedig ar gyllidebau a rhagdybiaethau cyfredol ac fe fynegodd y Cabinet bryder bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwybod yn hwyr bod cyllid ar gael a chytunwyd y byddai'r mater yn cael ei drafod gyda nhw'n uniongyrchol.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn rhoi caniatâd i Bennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol, ac Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Chludiant Cynaliadwy, i ddyfarnu contractau hyd at y terfyn ac o fewn y gyllideb sydd ar gael yn unol â'r cynigion yn yr atodiad i'r adroddiad. Mae'n bosibl y bydd angen gwneud mân newidiadau i fanylion y cynllun yn dilyn ymgysylltu'n ffurfiol gyda'r contractwyr ac wrth i'r sefyllfa ddod yn fwy eglur.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.20 p.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod:	23 Ionawr 2018
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Y Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol dros Briffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy
Awdur yr Adroddiad:	Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai
Teitl:	Cynnig i sefydlu Grŵp Cynllunio Strategol

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

- 1.1 Mae'r adroddiad yn amlinellu'r cynigion i newid Grŵp Llywio'r Cynllun Datblygu Lleol gyda Grŵp Cynllunio Strategol newydd. Y bwriad yw sefydlu grŵp newydd i ddarparu arweiniad a chyfarwyddyd corfforaethol i symud y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn ei flaen trwy'r broses fabwysiadu ffurfiol, ac i ganolbwyntio ar weithredu strategaeth a pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol. Sefydlwyd y Grŵp Llywio Aelodau Cynllun Datblygu Lleol yn 2006 ac adolygwyd ei rôl a'i aelodau wedi hynny ym Mehefin 2013. Darparodd y Grŵp fewnbwn a thrafodaeth ar bolisïau CDLI sy'n dod i'r amlwg ac i helpu gyda datblygiad y gyfres o nodiadau cynllunio atodol a briffiau datblygu i fynd ochr yn ochr â'r CDLI mabwysiedig. Fodd bynnag, codwyd pryderon gan Aelodau a swyddogion bod diffyg 'perchnogaeth' gan yr Aelodau o'r Grŵp Llywio ac wedi dioddef o ddiffyg parhad o ran presenoldeb Aelodau mewn cyfarfodydd.
- 1.2 Cynigir nawr y dylai'r Grŵp Llywio Aelodau CDLI gael ei newid ac y dylid sefydlu Grŵp Cynllunio Strategol gyda mwy o ffocws iddo, gan weithio mwy fel busnes.

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

I gael cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer cynigion i sefydlu Grŵp Cynllunio Strategol i newid y Grŵp Llywio Aelodau CDLI. Nod y Grŵp newydd yw darparu arweinyddiaeth amlwg ar ddatblygu CDLI newydd i sicrhau aliniad gyda'r Cynllun Corfforaethol a mewnbwn ar gynigion cynllunio gyda goblygiadau strategol.

3. **Beth yw'r Argymhellion?**

Argymhellir bod y Cabinet yn cymeradwyo sefydlu'r grŵp, Cylch Gorchwyl drafft ac aelodaeth Grŵp Cynllunio Strategol (gwelwch **Atodiad 1**).

4. **Manylion yr adroddiad**

- 4.1 Mae rôl a diben y Grŵp Cynllunio Strategol wedi'i nodi yn y Cylch Gorchwyl drafft ynghlwm. Yn gryno, ei brif rolau fydd:
 - Arwain y gwaith ar y CDLI newydd a chefnogi'r CDLI newydd yn ei ddatblygiad ac ar ôl ei fabwysiadu.
 - Cefnogi'r gwaith parhaus o weithredu'r Strategaeth CDLI mabwysiedig

- Goruchwylio'r gwaith o adolygu'r gyfres o Nodiadau Cyfarwyddyd Cynllunio sydd eu hangen i sicrhau bod polisiau yn cael eu gweithredu a bod budd cymunedol yn cael ei gyflawni.
- Trafod ac adolygu cynigion datblygu pwysig gyda goblygiadau strategol ehangach i ystyried aliniad gyda blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol a Strategaeth y CDLI.

Bydd gan y Grŵp swyddogaeth anweithredol ac ni fydd y grŵp yn gwneud penderfyniadau ond yn hytrach yn adrodd ac yn gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Cynllunio, Cabinet ac/neu'r Cyngor fel sy'n briodol.

4.2 Mae'r Cylch Gorchwyl drafft wedi'i atodi fel Atodiad 1 yn nodi'r rôl arfaethedig a diben y Grŵp ynghyd â threfniadau ar gyfer aelodaeth.

4.3 Bydd aelodaeth y Grŵp yn cynnwys 8 Aelod, i gynnwys yr Aelod Arweiniol perthnasol gyda chyfrifoldeb am y CDLI, Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ynghyd ag 1 aelod o bob Grŵp Ardal Aelodau. Bydd gan aelodau gyfrifoldeb i adrodd yn ôl yn rheolaidd ac i ddarparu mewnbwn gan eu Grŵp Ardal Aelodau. Bydd disgwyl i aelodau ddarparu mewnbwn gan, ac i adrodd yn ôl i'w grŵp gwleidyddol. Bydd y Grŵp yn cael ei gadeirio gan yr Aelod Arweiniol perthnasol gyda chyfrifoldeb am y CDLI (ar hyn o bryd yr Aelod Arweiniol dros Briffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy).

4.4 Bydd agendâu a phapurau i gyfarfodydd Grŵp ynghyd â nodiadau o gyfarfodydd ar gael i'r holl Gynghorwyr. Bydd gweithdai a sesiynau briffio rheolaidd yn cael eu cynnal bob chwe mis ar gyfer yr holl Gynghorwyr i sicrhau ymrwymiad parhaus o'r aelodaeth ehangach. Bydd hefyd cyfleoedd am sesiynau briffio anffurfiol gydag aelodau lleol a bydd adroddiadau diweddarau'r CDLI yn cael eu cynnwys ar raglenni cyfarfodydd Grŵp Ardal Aelodau pan fo'r angen. Bydd cyfnodau allweddol yn natblygiad y CDLI yn cael eu hadrodd i'r Cabinet ac/neu'r Cyngor fel bo'r angen gan y Rheoliadau perthnasol.

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn chwarae rôl uniongyrchol o ran cyflawni blaenoriaethau 'Tai': Pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion a 'Phobl Ifanc': Ardal lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny trwy'r polisiau a'r cynigion ynddo, gan ddylanwadau datblygiad ar lawr gwlad. Prif swyddogaeth y Grŵp Cynllunio Strategol fydd goruchwylio'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol newydd, gan alluogi'r ddarpariaeth o dai, cyflogaeth, cyfleusterau cymunedol a diogelu'r amgylchedd trwy'r Sir.

6. **Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Ni fyddai costau uniongyrchol ychwanegol yn sgil cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl ac aelodaeth y Grŵp Cynllunio Strategol.

7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Nid oes Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei gynnal am nad yw'r adroddiad yn ceisio penderfyniad ar bolisi, strategaeth na rhaglen y Cyngor.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

Dim ar hyn o bryd.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Ni fyddai costau uniongyrchol ychwanegol yn sgîl cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl ac aelodaeth y Grŵp Cynllunio Strategol. Fodd bynnag, os bydd unrhyw gostau ychwanegol yn codi bydd angen eu cynnwys o fewn y cyllidebau refeniw presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae peidio â chytuno â'r trefniadau arfaethedig ar gyfer sefydlu'r Grŵp Cynllunio Strategol yn cynnwys risg o beidio â darparu arweiniad Aelod clir sydd ei angen i gyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol newydd ac i ddatblygu'r arweiniad cysylltiedig angenrheidiol.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Deddf Llywodraeth Leol 2000, Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004), a'r rheoliadau a'r nodiadau cysylltiedig.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

GRŴP CYNLLUNIO STRATEGOL

Ionawr 2017

ATODIAD 1

Cylch Gorchwyl Drafft

Rôl a Phwrpas:

- Prif rôl y Grŵp Cynllunio Strategol yw arwain yr adolygiad o'r CDLI a darparu'r CDLI newydd trwy lywio yn Gorfforaethol a rhoi adborth i gefnogi ei ddatblygiad.
- Bydd y Grŵp yn gefnogwr i'r CDLI newydd ar gyfer ei ddatblygu ac ar ôl ei fabwysiadu.
- Bydd y Grŵp Cynllunio Strategol hefyd yn goruchwyllo'r gwaith o reoli darpariaeth y CDLI newydd ac yn diwygio'r gyfres o Nodiadau Cyfarwyddyd Cynllunio sydd eu hangen i sicrhau bod polisïau yn cael eu gweithredu a bod budd cymunedol yn cael ei gyflawni.
- Swyddogaeth anweithredol sydd i'r Grŵp Cynllunio Strategol ond bydd yn adrodd ac yn gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Cynllunio, Cabinet ac/neu'r Cyngor fel sy'n briodol. Bydd adroddiadau diweddarau rheolaidd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio yn ôl yr angen.
- Bydd y Grŵp Cynllunio Strategol hefyd yn trafod ac yn adolygu cynigion cynllunio pwysig gyda goblygiadau corfforaethol a strategol ehangach
- Bydd y Grŵp yn cyfarfod bob 2 fis.
- Fel arfer bydd y papurau yn cael eu rhannu gydag aelodau'r Grŵp 1 wythnos cyn y cyfarfod
- Disgwylir i'r Aelodau adrodd yn ôl i'w grwpiau gwleidyddol a Grwpiau Ardal Aelodau, i sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei rannu. Bydd adroddiadau yn diweddarau ar y CDLI yn cael eu cynnwys ar Raglenni Cyfarfodydd Grŵp Ardal Aelodau pan fo angen.
- Bydd nodiadau cofnodion yn cael eu llunio ar gyfer bob cyfarfod Grŵp ac yn canolbwyntio ar y camau gweithredu i'w cymryd. Bydd nodiadau ac agenda ar gael i'r holl Gynghorwyr.

Amserlen:

- Bydd rhaglen waith manwl yn cael ei chytuno arni gyda'r Grŵp i sicrhau bod y CDLI newydd yn cael ei ddatblygu a'i ddarparu o fewn yr amserlenni penodedig.
- Bydd y Grŵp Llywio yn goruchwyllo paratoad yr Adroddiad Monitro

Blynyddol cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref bob blwyddyn.

Presenoldeb:

- Er mwyn cynnal cysondeb disgwylir i holl aelodau'r Grŵp Llywio, neu eu cynrychiolwyr enwebedig, i fynychu'r holl gyfarfodydd.
- Cynhelir sesiynau cyfarwyddo rheolaidd i'r holl Aelodau, ar sail 6 mis ac felly bydd cyfleoedd am ymrwymiad gwleidyddol ehangach trwy Cabinet, Archwilio a Grwpiau Ardal Aelodau.
- Ni fydd modd i aelodau'r cyhoedd fynychu'r cyfarfodydd.

Cefnogaeth:

- Darperir cefnogaeth weinyddol a thechnegol ar gyfer y grŵp drwy'r Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

Dosbarthu papurau:

- I'w dosbarthu i'r holl Aelodau/ Tîm Gweithredol Corfforaethol / Penaethiaid Gwasanaeth

Aelodaeth:

- Bydd aelodaeth y Grŵp yn cynnwys 8 Aelod, i gynnwys yr Aelod Arweiniol perthnasol gyda chyfrifoldeb am y CDLI, Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ynghyd ag 1 aelod o bob Grŵp Ardal Aelodau.
- Dylai pob Grŵp Ardal Aelodau hefyd enwebu dirprwy i fynychu yn absenoldeb eu cynrychiolydd.
- Bydd y Grŵp yn cael ei gadeirio gan yr Aelod Arweiniol perthnasol gyda chyfrifoldeb am y CDLI.

Hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd fydd:

1. Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer Economi a'r Parth Cyhoeddus
2. Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
3. Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai
4. Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol
(neu eu cynrychiolwyr enwebedig) a swyddogion eraill fel bo angen

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod:	23 Ionawr 2018
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Cynghorydd Huw Hilditch Roberts
Awdur yr Adroddiad:	Karen Evans, Pennaeth Gwasanaethau Addysg a Phlant
Teitl:	Darpariaeth Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif

1. Beth sydd yn yr adroddiad?

Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer y Cabinet ynghylch cymeradwyaeth ei gynnig ar gyfer Band B Rhaglen Ysgolion yr 21 Ganrif ac Addysg a'r goblygiadau i Gyngor Sir Ddinbych o safbwynt darpariaeth.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi gwybod i'r Cabinet am gynnydd Band B Rhaglen Ysgolion yr 21 Ganrif ac Addysg a gwneud argymhellion perthnasol i gynllunio ar gyfer darpariaeth y Rhaglen gan Gyngor Sir Ddinbych.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cabinet yn cadarnhau ei ymrwymiad ariannol i gyflwyno cynigion Band B yn unol â'r Rhaglen Strategol Amlinellol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru er mwyn diwallu gofynion y flaenoriaeth sydd wedi'i chynnwys yng Nghynllun Corfforaethol 2017-2022.

3.2 Bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac wedi rhoi ystyriaeth i'r Aseiad o Effaith ar Les (Atodiad 1).

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Dros y pedair blynedd ddiwethaf mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd rhagorol o ran darparu cynigion Band A Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Erbyn 2019 bydd y Cyngor wedi buddsoddi dros £90 miliwn mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i ddarparu 8 prosiect allweddol. Gwahoddodd Llywodraeth Cymru'r awdurdodau lleol i gyflwyno cynigion ar gyfer y rownd ariannu nesaf, Band B, ym Mai 2017 a chymeradwyodd y Cabinet gynnig gwerth cyfanswm o £80 miliwn ym mis Gorffennaf 2017. Roedd y cynnig hwn yn cynnwys cyfeiriad at y gwaith oedd ar y gweill mewn perthynas â blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Hydref 2017.

4.2 Ym mis Tachwedd 2017 cyhoeddodd Ysgrifennydd Addysg Cymru fod £2.3bn arall wedi'i glustnodi i'w fuddsoddi yn y seilwaith addysg ar draws Cymru drwy gyfrwng Band B Rhaglen Ysgolion yr 21 Ganrif. Cafodd y Cyngor gadarnhad gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2017 y rhoddwyd cymeradwyaeth mewn egwyddor i'r ail rownd hwn o

fuddsoddiad, yn amodol ar gymeradwyaeth achosion busnes prosiectau unigol. Roedd y llythyr o gymeradwyaeth hefyd yn amlinellu'r camau nesaf ar gyfer darpariaeth Band B mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol unigol a'r angen i sicrhau fod yr adnoddau ariannol yn cael eu cynllunio'n briodol.

- 4.3 Yng ngoleuni'r cyhoeddiad hwn gofynnir i'r Cabinet roi eglurhad ynghylch ei ymrwymiad ariannol i ddarparu cynigion Band B. Mae'r rhaglen a gymeradwywyd werth cyfanswm o £80.5 miliwn, ac o hwn bydd angen i Sir Ddinbych wneud cyfraniad o £32.8 miliwn tuag at ei ysgolion cymunedol. Wrth gynllunio ar gyfer y Cynllun Corfforaethol gwnaed rhagdybiaeth amlinellol ynghylch yr ymrwymiad ariannol blynyddol a fydd yn angenrheidiol i wireddu dyheadau'r cynllun ond nodir yn glir fod hyn yn amodol ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor.
- 4.4 Mae'r cynllunio cychwynnol ar gyfer darpariaeth Band B yn awgrymu pe bai cyfraniad Sir Ddinbych yn cael ei wneud drwy fenthycu darbodus y byddai angen ymrwymiad o £1.836m i gwrdd â'r gwariant cynlluniedig dros saith mlynedd arfaethedig y Rhaglen Band B.
- 4.5 Bydd darpariaeth cynigion Band B yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd y Rhaglen Gorfforaethol dros Dai a Phobl Ifanc gyda chynigion prosiect unigol i gael eu hystyried maes o law gan y Grŵp Buddsoddiad Strategol a'r Cabinet.

5. Sut y byddi'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Byddai cymeradwyo'r argymhelliad hwn yn galluogi'r Cyngor i symud ymlaen tuag at gynllunio ar gyfer Band B ac i geisio buddsoddiad posibl o £80m yn ystâd yr ysgol er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r flaenoriaeth o barhau i foderneiddio ysgolion drwy'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Amcangyfrifir mai cost darpariaeth Band B i Gyngor Sir Ddinbych fydd £32.8m dros y cyfnod o 7 mlynedd y mae cynlluniau Sir Ddinbych yn seiliedig arno. Mae hyn yn seiliedig o gyfraniad 50/50 gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau Ysgolion Cymunedol ynghyd ag arian ar gyfer ysgol wirfoddol a gynorthwyr a fydd yn cael ei noddi drwy gymhareb 85/15. Disgwylir y daw'r cyllid ar gyfer y rhaglen o arbedion corfforaethol a fydd yn cael eu hail-fuddsoddi yn narpariaeth y Blaenoriaethau Corfforaethol ynghyd ag unrhyw arbedion a allent godi yn sgil darpariaeth yr agenda Moderneiddio Addysg.

Os symudir ymlaen â'r Rhaglen byddai datblygiad prosiectau unigol yn creu ffrydiau gwaith ar gyfer timau eraill o fewn y Cyngor, yn arbennig felly Dylunio ac Adeiladu. Byddai costau'r timau eraill hyn yn dod o'r costau amlinellol hollgynhwysfawr arfaethedig.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?

Fe ddylai datblygiad y Rhaglen ar gyfer buddsoddiad yn Ysgolion yr 21ain Ganrif gael effaith gadarnhaol ar Sir Ddinbych. Bydd y cam adeiladu yn arwain at fwy o fuddsoddiad mewn cwmnïau lleol ac yn gwella rhagolygon cyflogaeth Gallai dethol

safleoedd gael effaith negyddol ar 'Sir Ddinbych Wydn' a bydd angen ystyried hyn yn ofalus. Dylai darpariaeth adeiladau modern effeithio'n gadarnhaol ar Ddinbych Iachach a Mwy Cyfartal ar yr un pryd a chynnig cyfleoedd ar gyfer Cymuned fwy Gydlynol. Bydd yr effaith ar yr iaith Gymraeg yn seiliedig ar ble y gwneir y buddsoddiad.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

Cafodd y rhestr hir gychwynnol o gynigion ei hystyried gan yr aelodau etholedig ym mis Rhagfyr 2016 ac roedd hefyd yn rhan o ystyriaethau'r Rhaglen Strategol Amlinellol. Bydd datblygiad y prosiectau o fewn y rhaglen yn destun ymgynghori helaeth.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Bydd gofyniad cyllideb refeniw y cyngor i ariannu'r benthycia i gefnogi rhaglen Band B tua £1.8m dros saith mlynedd y rhaglen.

Hyd ddiwedd 2022, bydd hyn yn cael ei gwrdd drwy ddyraniadau arfaethedig yng nghyllidebau'r dyfodol i gefnogi blaenoriaethau presennol y Cynllun Corfforaethol. Dylid nodi fod costau'r rhaglen wedi ei seilio ar ragamcanion a gallant newid wrth i gynigion manwl ddatblygu. Hefyd, mae'r costau benthycia a dybiwyd yn debygol o newid dros gyfnod y saith mlynedd. Gall y ddau ffactor, yn ogystal â'r gostyngiad sy'n parhau i gyllid y cyngor, effeithio ar fforddiadwyedd yn y dyfodol. Fe allai'r rhaglen felly orfod cael ei mireinio i adlewyrchu newidiadau o'r fath yn y blynyddoedd sydd i ddod. Bydd cynlluniau unigol yn ddibynnol ar brosesau cymeradwyo arferol y cyngor, gan gynnwys adolygiad gan y Grŵp Buddsoddiad Strategol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae'r ymdriniaeth o ran darpariaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg yn cynnwys gweithdrefnau clir ar gyfer rheoli ac uwchgyfeirio risgiau ar lefel Rhaglen a Phrosiect. Pe symudir y rhaglen yn ei blaen byddai'r gweithdrefnau hyn yn parhau. Byddai'r risgiau cysylltiedig â pheidio symud y rhaglen yn ei blaen yn berthnasol i'r meysydd allweddol canlynol: drwy dderbyn y risg cysylltiedig ag ysgolion sydd ar fin neu sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes disgwylir y bydd costau cynnal a chadw yn cynyddu dros amser. Mae'n bosib y bydd effaith ar gyfleoedd dysgu'r disgyblion sy'n cael eu haddysgu yn y fath adeiladau.

11. Hawl i wneud y Penderfyniad

Mae Adran 14 Deddf Addysg 1996 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau digon o ysgolion i ddarparu addysg gynradd ac uwchradd.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

21st Century Schools Programme Band B proposals

Wellbeing Impact Assessment Report

This report summarises the likely impact of a proposal on the social, economic, environmental and cultural well-being of Denbighshire, Wales and the world.

Assessment Number:	268
Brief description:	The proposals for Band B of 21st Century Schools Programme which would be delivered in partnership with the Welsh Government
Date Completed:	09/01/2018 14:04:32 Version: 3
Completed by:	James Curran
Responsible Service:	Education & Children Services
Localities affected by the proposal:	Whole County,

IMPACT ASSESSMENT SUMMARY AND CONCLUSION

Before we look in detail at the contribution and impact of the proposal, it is important to consider how the proposal is applying the sustainable development principle. This means that we must act "in a manner which seeks to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs."

Score for the sustainability of the approach

Could some small changes in your thinking produce a better result?



(3 out of 4 stars)

Actual score : 21 / 24.

Summary of impact

Wellbeing Goals



A prosperous Denbighshire	Positive
A resilient Denbighshire	Negative
A healthier Denbighshire	Positive
A more equal Denbighshire	Positive
A Denbighshire of cohesive communities	Positive
A Denbighshire of vibrant culture and thriving Welsh language	Neutral
A globally responsible Denbighshire	Positive

Main conclusions

The progression of the programme for investment for 21st Century Schools should have a positive impact on Denbighshire. The construction phase will lead to increased investment in local companies and improve employment prospects. Site selection may have a negative impact on a resilient Denbighshire and this will need to be carefully considered. The provision of modern buildings should impact positively on a healthier and equal Denbighshire whilst providing an opportunity for a more cohesive community. The impact on Welsh Language will be guided by where investment is made.

THE LIKELY IMPACT ON DENBIGHSHIRE, WALES AND THE WORLD

A prosperous Denbighshire

Overall Impact	Positive
Justification for impact	The investment in 21st Century Schools will provide school buildings which are more energy efficient, provide economic regeneration during the construction phase and should increase the skill base of the local labour market.

Positive consequences identified:

Any projects progressed for new or refurbished buildings are likely to see significant improvements towards energy efficiency in those buildings. The procurement of products will include indicators which encourage local sourcing of products where possible.

The projects will contribute towards economic regeneration via the indicators to secure local spend and employment as part of the contract. The securing of contracts for local suppliers and trades will boost economic conditions in the short term.

The main boost for quality jobs will be during the construction phase which will generally be between 12 - 24 months.

An emphasis will be placed on employment of apprentices and work experience opportunities. This will enhance the skill base of the local labour market and allow such apprentices to be seen to be more skilled for the future.

In many instances we will seek to redevelop existing sites thus minimising change and seeking to take advantage of existing infrastructure. The development of new sites may encourage neighbouring sites to become active assisting development opportunities. The provision of new sites could act as a catalyst for investment in super fast broadband etc.

The projects will seek to examine options for pre-school provision to be located with schools. This will be developed based on existing provision to ensure that a balance is achieved to ensure that existing providers remain viable.

Unintended negative consequences identified:

The overall number of journeys within an area will be increased via the construction project. This will include delivery of materials and the travel of site workers. The re-location of schools may create additional journeys for pupils.

The short term nature of the construction industry may lead to scenarios where trained up apprentices are unable to secure long term employment.

The need for increased training opportunities through the community benefits requirements may lead to a number of skilled operatives unable to secure long term jobs.

Mitigating actions:

The short term nature of construction projects may lead to jobs being available for a limited period. By working with the framework across North Wales to plan projects some of these issues may be overcome.

A resilient Denbighshire

Overall Impact	Negative
----------------	----------

Justification for impact	The development of new sites or significant refurbishments could have an unintended negative consequence on the landscape of Denbighshire as the period of construction will lead to a disturbance of the natural environment.
--------------------------	--

Positive consequences identified:

Within the external layout of school sites opportunities to preserve or enhance natural habitats will be maximised to allow such areas to be used to deliver the curriculum. Options will be explored for new buildings to have nesting / roosting areas elsewhere on the site should existing habitat's be disturbed in the provision of a new / refurbished building. Projects are encouraged to meet stringent recycling targets and minimise waste being taken off site. Where demolition takes place unused rubble is sought to be kept onsite for use as base materials for car parks etc. The improvement to buildings will lead to energy efficiency. Any rationalisation of buildings in poor condition will also have a positive impact on energy consumption. The development of projects will give the opportunity for pupils and the local community to become more aware of the existing habitat where a project is taking place. The selection of any site will consider land use policies and relevant WG guidance. Where any risk does arise the need to engineer a solution could lead to an overall reduction in flood risk.

Unintended negative consequences identified:

